Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Bryn Elian**
**Windsor Drive**
**Bae Colwyn**
**Conwy**
**LL29 8HU**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 08/12/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Bryn Elian yn ysgol gyfun gymysg cyfrwng Saesneg i ddisgyblion 11 i 18 oed, a gynhelir gan awdurdod lleol Conwy. Mae 962 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 154 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth. Mae'r ffigur hwn wedi cynyddu er 2008 pan arolygwyd yr ysgol ddiwethaf, pan roedd 823 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 132 yn y chweched dosbarth. Mae tua 21% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.4%. Daw disgyblion o ochr ddwyreiniol Bae Colwyn a'r pentrefi cyfagos. Mae ychydig dros 20% o'r disgyblion yn byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae bron pob disgybl yn siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf ac yn dod o gefndir gwyn Prydeinig. Mae ychydig iawn ohonynt yn siarad Cymraeg yn rhugl.

Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o'r ystod allu lawn. Tua 27% yw canran y disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 25%. Mae canran y disgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 2.5%.

Ymgymerodd y pennaeth â'r swydd yn 2008. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys y pennaeth, dau ddirprwy bennaeth, tri phennaeth cynorthwyol a thri phennaeth cynorthwyol dros dro.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Bryn Elian yn 2015-2016 yw £4,846. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion uwchradd yng Nghonwy yw £5,511 a'r isafswm yw £4,418. Mae Ysgol Bryn Elian yn y 4ydd safle allan o'r saith ysgol uwchradd yng Nghonwy o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Rhagorol |

### Perfformiad presennol

Bernir bod perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- Dros y pedair blynedd diwethaf, mae'r ysgol wedi perfformio'n dda iawn yn gyson ac yn well nag ysgolion tebyg ym mron pob dangosydd yng nghyfnod allweddol 4
- Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni anghenion pob disgybl yn dda iawn
- Mae'r ysgol yn darparu dull cryf a chyson dros ben o ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn gynyddol
- Mae ansawdd yr addysgu yn nodwedd gref o waith yr ysgol
- Mae ymddygiad disgyblion yn rhagorol ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu

Fodd bynnag:

- Nid yw'r disgyblion mwyaf abl yn perfformio cystal ag y dylent
- Nid yw ychydig o wersi'n herio disgyblion yn ddigon da
- Mae anghysondebau yn yr adborth ysgrifenedig sy'n cael ei roi i ddisgyblion o fewn ac ar draws pynciau.

### Rhagolygon gwella

Bernir bod rhagolygon gwella'n rhagorol oherwydd:

- Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth ysbrydoledig a gweledigaeth strategol glir sy'n rhoi cyflawniad i bawb wrth wraidd gwaith yr ysgol
- Mae arweinyddiaeth fedrus ar bob lefel wedi arwain at berfformiad cyson uchel ym mron pob dangosydd allweddol yng nghyfnod allweddol 4
- Mae arweinwyr yn sicrhau nad yw disgyblion yn tangyflawni o ganlyniad i anfantais gymdeithasol
- Mae arweinwyr yn cynllunio i wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn llwyddiannus iawn
- Mae diwylliant cryf o fyfyrio ac ymdrech gyson i wella ansawdd addysgu
- Mae hunanarfarnu a chynllunio gwelliant yn drylwyr yn rhan ganolog o fywyd yr ysgol
- Mae ystod eang o bartneriaethau llwyddiannus yn gwella darpariaeth a phrofiadau dysgu ac yn cyfrannu'n sylweddol at ddeilliannau a lles disgyblion

## Argymhellion

A1 Gwella cyfran y disgyblion sy’n cyflawni’r graddau uchaf yng nghyfnod allweddol 4

A2 Gwella addysgu i gyfateb i’r arfer orau yn yr ysgol

A3 Sicrhau bod mwy o gysondeb yn ansawdd adborth ysgrifenedig a bod disgyblion yn ymateb yn gynhyrchiol i’r adborth hwnnw

### Beth sy’n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio’r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

| Prif ganfyddiadau |
|---|

| Cwestiwn allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Bu perfformiad disgyblion yn gyson gryf dros y tair blynedd diwethaf mewn llawer o'r dangosyddion perfformiad yng nghyfnod allweddol 4. Yn 2014, ar draws llawer o ddangosyddion, gwnaeth disgyblion gynnydd cryf o gyfnodau allweddol blaenorol. Mae data dros dro ar gyfer 2015 yn awgrymu bod y duedd hon o welliant yn parhau.

Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg, wedi dangos gwelliant dros y tair blynedd diwethaf ac yn rhoi'r ysgol yn y 50% uwch neu'r 25% uchaf o ysgolion tebyg ar sail nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae data dros dro ar gyfer 2015 yn rhoi'r ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg. Bu perfformiad yn y dangosydd hwn uwchlaw'r deilliannau wedi'u modelu yn gyson, ac uwchlaw cyfartaledd y teulu o ysgolion am y ddwy flynedd diwethaf ar ôl bod yn is gynt. Am y tair blynedd diwethaf, bu cyfran y disgyblion sy'n ennill pum gradd A* neu A mewn TGAU islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae data dros dro ar gyfer 2015 yn dangos bod hyn yn wir o hyd.

Bu perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio a throthwy lefel 2 ymhell uwchlaw cyfartaledd y teulu o ysgolion, ac mae wedi rhoi'r ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg am y pedair blynedd diwethaf. Mae data dros dro yn awgrymu bod deilliannau ar gyfer 2015 o safon uchel gyffelyb.

Ym Mlwyddyn 13, er 2012, bu cyfran y disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 3 uwchlaw cyfartaledd y teulu o ysgolion yn gyson, ynghyd â'r sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach. Fodd bynnag, mae data dros dro ar gyfer 2015 yn dangos gostyngiad o ran perfformiad yn y ddau ddangosydd. Mae data dros dro hefyd yn dangos bod cyfran y disgyblion sy'n ennill tair gradd A* neu A yn agos at gyfartaledd y teulu ac ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer cyfran y disgyblion sy'n ennill tair gradd A*-C.

Yng nghyfnod allweddol 3, bu tuedd ar i fyny yng nghyfran y disgyblon sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Yng nghyfnod allweddol 3 yn 2015, mae'r gwahaniaeth mwyaf rhwng perfformiad bechgyn a merched mewn Saesneg. Yng nghyfnod allweddol 4, mae data dros dro ar gyfer 2015 yn dangos bod y gwahaniaeth mwyaf mewn Saesneg hefyd. Fodd bynnag, mae perfformiad bechgyn yn y dangosydd hwn uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer bechgyn mewn ysgolion tebyg.

Yn 2015, yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim islaw'r cyfartaledd ar gyfer disgyblion tebyg mewn ysgolion eraill yn y teulu yn y dangosydd pwnc craidd, ac mewn Saesneg a mathemateg ar lefel 5 ac uwch. Yn 2015, y bwlch rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill yn y dangosyddion hyn yw'r bwlch mwyaf yn y tair blynedd diwethaf. Yn 2014, yng nghyfnod allweddol 4, perfformiodd disgyblion

sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn well na chyfartaledd y teulu ar gyfer disgyblion tebyg ym mron pob dangosydd, ar ôl bod yn is yn 2013. Mae data dros dro ar gyfer 2015 yn dangos bod y gwelliant hwn yn parhau.

Mae gan bron pob un o'r disgyblion agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu. Mae llawer ohonynt yn gweithio'n dda yn annibynnol ac â disgyblion eraill mewn ystod o sefyllfaoedd symbylol, fel trafod y materion moesol yn ymwneud â defnyddio bôn-gelloedd ac arwain pobl eraill i wella eu perfformiad mewn addysg gorfforol. Mae llawer o ddisgyblion yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda ac yn gwneud defnydd effeithiol o'r dysgu hwnnw i ennill gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando ar yr athro/athrawes â sylw, parch a dealltwriaeth. Mae llawer ohonynt yn gwneud hynny i'w cyfoedion hefyd. Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ystod oedran a gallu yn siarad yn hyderus ac yn mynegi eu barn yn glir. Yn y rhan fwyaf o bynciau, mae disgyblion o bob gallu yn defnyddio termau sy'n benodol i bwnc yn dda. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn rhoi ymatebion llafar cryno heb eu datblygu'n ddigonol.

Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o'r hyn y maent yn ei ddarllen. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd â medrau darllen gwannach yn gwneud cynnydd da trwy raglenni ymyrraeth strwythuredig. Pan gânt gyfle, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio uwch fedrau darllen yn dda. Maent yn cyfosod gwybodaeth o ystod o ffynonellau a gallant gasglu a diddwytho'n dda i wella'u gwybodaeth a dealltwriaeth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu at ystod addas o ddibenion a chynulleidfaoedd. Yn y rhan fwyaf o bynciau, mae llawer o ddisgyblion yn cynhyrchu ysgrifennu estynedig o ansawdd da sydd wedi ei drefnu'n dda ac yn gydlynus. Mae disgyblion mwy abl yn cynhyrchu ysgrifennu graenus. Yn gyffredinol, mae ysgrifennu merched wedi ei ddatblygu'n well ac yn fwy cywir yn dechnegol nag ysgrifennu bechgyn. Nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn prawfddarllen nac yn golygu eu gwaith yn ddigon da. O ganlyniad, maent yn parhau i wneud gormod o wallau sillafu, atalnodi a gramadeg, ac nid yw eu hysgrifennu wedi ei ddatblygu'n ddigonol o hyd. Mewn ychydig o achosion, nid yw disgyblion yn cwblhau gwaith.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau rhifedd, fel cyfrifo a mesur, yn dda. Maent yn defnyddio'r medrau hyn a graffiau mewn cyd-destunau priodol ar draws y cwricwlwm. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos medrau meddwl clir wrth ddatrys problemau ac wrth ddadansoddi deunyddiau ffynhonnell.

Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad mewn Cymraeg ail iaith ar lefel 5 neu'n uwch wedi gwella'n raddol. Ym mhob un o'r blynyddoedd, mae perfformiad wedi rhoi'r ysgol uwchlaw cyfartaledd y teulu ac yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar sail nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac eithrio yn 2015. Yng nghyfnod allweddol 4, mae bron pob un o'r disgyblion yn cofrestru ar gyfer cymhwyster cwrs llawn, ac mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni cymhwyster lefel 2 mewn unrhyw gwrs iaith Gymraeg ymhell uwchlaw cyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol.

**Lles: Rhagorol**

Mae lles disgyblion yn nodwedd arbennig o gryf yn yr ysgol. Mae hyn i'w weld yn y presenoldeb rhagorol, ymddygiad canmoladwy a lefel ymglymiad disgyblion mewn cyfrannu at ethos cryf yr ysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn sicr yn yr ysgol. Maent yn hyderus bod yr ysgol yn mynd i'r afael â'r achosion prin o fwlio yn effeithiol iawn.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn ystod eang iawn o weithgareddau allgyrsiol buddiol, gan gynnwys chwaraeon, sy'n cael eu cynnig gan yr ysgol. Caiff y gweithgareddau hyn eu trefnu'n fedrus iawn a'u harwain gan y disgyblion sy'n llysgenhadon chwaraeon. Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n iach trwy ymarfer corff a bwyta diet cytbwys.

Mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol yn nodwedd arbennig o gryf. Mae disgyblion yn barchus iawn tuag at athrawon a'i gilydd. Maent yn cyfrannu'n gynhyrchiol at y gymuned leol mewn sawl ffordd. Mae'r rhain yn cynnwys y prosiect rhandiroedd, tynnu a gwerthu cynnyrch lleol yn yr ysgol, a'r côr yn canu i gleifion yn yr ysbyty lleol.

Bu presenoldeb yn sylweddol uwch na'r deilliannau wedi'u modelu ar gyfer y pum mlynedd diwethaf, ac mae'n rhoi'r ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar sail nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim er 2011. Mae absenoliaeth fynych wedi lleihau'n sylweddol ac mae ymhell islaw cyfartaledd yr awdurdod lleol a'r cyfartaledd cenedlaethol. Bu presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer disgyblion tebyg o fewn y teulu o ysgolion yn gyson am y pum mlynedd diwethaf.

Mae graddau ymglymiad disgyblion ym mywyd yr ysgol a'r tu hwnt yn gryfder sylweddol. Mae ystod eang y pwyllgorau disgyblion yn gwneud cyfraniad pwysig at waith yr ysgol. Yn benodol, mae'r cyngor ysgol yn chwarae rôl sylweddol mewn amlygu materion cymdeithasol a moesol trwy brosiectau arbennig, fel ei waith ar agweddau tuag at anabledd, rhywioldeb a hiliaeth. Mae'r effaith y mae hyn wedi ei chael ar agweddau a dealltwriaeth disgyblion eraill yn nodwedd gref iawn.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Rhagorol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni gofynion statudol. Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r cwricwlwm yn darparu ystod gynhwysfawr o gyrsiau academaidd a galwedigaethol. Mae darpariaeth yr ysgol a'r hyn sy'n cael ei gynnig ar y cyd â'r sefydliad addysg bellach lleol a darparwr dysgu yn y gwaith yn hynod effeithiol o ran bodloni anghenion disgyblion unigol. Mae hyn wedi cyfrannu at lefelau uchel iawn o bresenoldeb disgyblion a chyflawniad cryf cyson.

Mae'r ysgol yn cynnig dewis arbennig o helaeth o weithgareddau allgyrsiol sy'n gwneud budd i ddysgu a hyder disgyblion. Mae nifer dda yn mynychu'r gweithgareddau hyn ac mae disgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn ystod

eang o gyrsiau ychwanegol, cymwysterau a chlybiau. Mae'r gweithgareddau hyn yn hynod effeithiol o ran helpu disgyblion i gyflawni cymwysterau ychwanegol, ac mae llawer ohonynt yn ymgymryd â gweithgareddau efallai na fyddant wedi cael profiad ohonynt o'r blaen. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi sefydlu opsiwn chwaraeon dŵr arloesol sy'n galluogi disgyblion i fanteisio ar weithgareddau hwylio a hwylfyrddio ar lan y môr yn lleol. Mae'r gweithgareddau hyn yn arwain at wella hunan-barch disgyblion yn sylweddol, ynghyd â'u gallu i weithio fel aelod o dîm, a'u lles.

Mae gan yr ysgol strategaeth lythrennedd a rhifedd fanwl sydd wedi ei datblygu'n eithriadol o dda. Bu dulliau tra ystyriol a chyson ym mron pob pwnc yn hynod effeithiol o ran datblygu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae'r ysgol yn darparu ymyrraeth gynhwysfawr i ddisgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt mewn llythrennedd a rhifedd.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r dimensiwn Cymreig yn effeithiol trwy weithgareddau allgyrsiol, fel cysylltiadau diwylliannol a chwaraeon â'r Urdd. Mae athrawon yn ymgorffori ystod eang o gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am ddiwylliant a hanes Cymru, er enghraifft mewn gwersi'r dyniaethau. Mae cyfran sylweddol o amser y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 yn cael ei ddyrannu i ddarpariaeth Gymraeg. Mae hyn yn rhoi statws uchel i ddatblygu'r Gymraeg yn yr ysgol. Mae llysgenhadon iaith yn y chweched dosbarth yn darparu cymorth gwerthfawr i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3.

Mae'r ysgol wedi datblygu trefniadau cynhwysfawr iawn i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu hyn trwy ystod ddiddorol o weithgareddau a'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys codi materion perthnasol mewn gwersi, lle bo hynny'n briodol, yn ystod gwasanaethau ysgol ac yng ngwaith codi ymwybyddiaeth y grŵp eco. Bu'r cysylltiadau hirsefydlog ag ysgol ym Madagascar yn arbennig o werthfawr o ran cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o brofiadau pobl ifanc mewn amgylchedd gwahanol iawn.

**Addysgu: Da**

Mae gan athrawon wybodaeth bynciol gadarn iawn ac maent yn meithrin perthynas waith fwriadus a chynhyrchiol â phob disgybl.

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn defnyddio ystod amrywiol a defnyddiol o strategaethau addysgu ac yn darparu ffocws cyson ar ddatblygu medrau disgyblion, yn enwedig yn eu hysgrifennu. Gwna athrawon ddefnydd da iawn o lawlyfr addysgu a dysgu yr ysgol, 'The Fulcrum', sydd wedi ei seilio ar arfer gref bresennol yn yr ysgol. Mewn hanner o'r gwersi hyn, mae athrawon yn creu lefel uchel iawn o her i ddisgyblion o bob gallu, a rhediad bywiog i'w dysgu. Maent yn defnyddio holi cryf, miniog sy'n procio dealltwriaeth disgyblion yn dda iawn. Mae athrawon yn monitro ac asesu dysgu disgyblion yn barhaus. Maent yn rhoi adborth manwl gywir sy'n helpu disgyblion i wneud cynnydd cryf a chyflym.

Nid yw ychydig o wersi yn cael eu cynllunio'n effeithiol ac nid ydynt yn herio disgyblion o bob gallu. Nid yw tasgau'n cyfateb yn ddigon da i alluoedd a dysgu

blaenorol disgyblion. Nid yw ychydig o athrawon yn sicrhau bod disgyblion wedi atgyfnerthu eu dysgu, nac yn gofyn cwestiynau'n ddigon clir i brocio dealltwriaeth disgyblion. Yn y gwersi hyn, nid yw ychydig o ddisgyblion yn gwneud digon o gynnydd.

Mae bron pob un o'r athrawon yn marcio'n rheolaidd. Mae llawer ohonynt yn cynnig adborth ysgrifenedig clir i arwain dysgu disgyblion. Mewn lleiafrif o achosion, mae athrawon yn gwneud sylwadau clir ar ansawdd gwaith disgyblion, ond nid ydynt yn esbonio'n ddigon da sut i wneud rhagor o gynnydd. Mae sylwadau'r lleiafrif o athrawon yn rhy hael neu nid ydynt yn cynnig lefel briodol o her i ddisgyblion.

Mewn ychydig o bynciau, mae athrawon yn sefydlu deialog ddefnyddiol â disgyblion ynghylch sut i wella eu gwaith. Maent yn darparu strategaethau defnyddiol i ddisgyblion, ynghyd ag amser i adolygu, golygu a gwella eu gwaith. Pan fydd hyn yn digwydd, mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn llwyddiannus. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ymateb yn ddigon da i'r cyngor sy'n cael ei roi iddynt.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio'r codau marcio ysgol-gyfan yn gyson. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau llythrennedd disgyblion. Mae llawer o adrannau'n defnyddio gweithgareddau hunanasesu ac asesu cyfoedion yn dda i gynorthwyo cynnydd disgyblion.

Mae gan yr ysgol systemau olrhain clir ac effeithiol i fonitro cynnydd disgyblion. Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn monitro safonau cyffredinol yn rheolaidd ac yn drylwyr. Mae'r ysgol yn defnyddio monitro'n arbennig o effeithiol i nodi'r disgyblion hynny y mae angen cymorth ychwanegol arnynt.

Mae'r ysgol yn rhoi adborth clir a gwerthfawr i rieni ar gynnydd disgyblion ac ar dargedau ar gyfer gwella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn darparu cymorth ac arweiniad rhagorol i ddisgyblion. Mae hyn yn cael effaith gref iawn ar eu datblygiad moesol a chymdeithasol, eu hymddygiad, presenoldeb a chyfranogiad ym mywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth hon yn nodwedd ragorol o waith yr ysgol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol ac yn lleihau rhwystrau rhag dysgu yn llwyddiannus iawn. Mae disgyblion sy'n agored i niwed, a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn benodol, yn elwa ar ystod eang o ymyriadau o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael â'u hanghenion yn hynod effeithiol. Mae cynlluniau addysg unigol yn cynnwys targedau perthnasol ac mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hyn yn cyflawni'n dda. Mae'r ganolfan cymorth disgyblion yn llwyddiannus iawn yn helpu disgyblion sy'n cael problemau a all arwain at beidio â chyflawni'n briodol neu fynychu'n rheolaidd. Mae'n defnyddio arbenigedd ystod eang o asiantaethau allanol yn dda iawn i gynorthwyo ei gwaith. Yn ogystal, mae cwnsler yr ysgol yn cynorthwyo disgyblion yn dda iawn.

Mae mentoriaid dysgu yn darparu cymorth buddiol iawn i ddisgyblion. Cânt eu hyfforddi'n dda i ddarparu ymyriadau arbenigol. Maent yn monitro presenoldeb, ymddygiad a chynnydd disgyblion yn drylwyr ac yn hynod effeithiol. Maent yn chwarae rôl bwysig mewn cynnal y safonau uchel iawn o les disgyblion.

Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol gynhwysfawr yn cynorthwyo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol yn dda iawn. Hefyd, mae'n datblygu lles disgyblion yn llwyddiannus ac yn hyrwyddo agweddau cadarnhaol a gwybodus iawn tuag at iechyd a materion cymdeithasol.

Gwna'r ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo gweledigaeth glir ar y cyd ar gyfer cydraddoldeb yn ei harwyddair, sef 'Achievement For All' (Cyflawniad i Bawb). Mae'r amgylchedd arbennig o gynhwysol, gofalgar a chroesawgar a'r ethos positif yn amlwg yn agweddau ac ymddygiad bron pob un o'r disgyblion. Mae aelodau staff yn cydweithio'n agos â'i gilydd i ddathlu doniau a gwahaniaethau disgyblion a'u helpu i gyrraedd eu nodau. Mae hyn yn golygu bod disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn datblygu eu doniau unigol yn dda iawn.

Caiff disgyblion eu trin yn gyfartal, yn deg ac â pharch. Gallant fanteisio ar bob agwedd ar y cwricwlwm a'r ystod eang o weithgareddau allgyrsiol.

Mae'r adeilad a'r tir yn cael eu cynnal a chadw'n dda iawn. Mae safle'r ysgol yn ddiogel ac yn sicr. Gwna staff ddefnydd da iawn o'r lle sydd ar gael. Maent yn cynhyrchu llawer o'r adnoddau o ansawdd uchel y maent yn eu defnyddio'n effeithiol i wella'r safonau y mae pob un o'r disgyblion yn eu cyflawni. Mae arddangosfeydd trwy'r ysgol gyfan yn ddeniadol ac yn addysgiadol, ac maent yn cynorthwyo dysgu yn dda.

| **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Rhagorol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae ansawdd yr arweinyddiaeth wedi arwain at lefelau uchel iawn o les a deilliannau disgyblion sydd uwchlaw lefelau ysgolion tebyg yn gyson.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth ysbrydoledig. Caiff ei chynorthwyo'n fedrus gan ei huwch dîm a rheolwyr canol. Mae'r weledigaeth Cyflawniad i Bawb yn cael ei rhannu gan bawb ac, yn bwysicach fyth, mae'n amlwg ym mhob agwedd ar waith yr ysgol.

Mae arweinwyr yn darparu cyfeiriad strategol clir, ac mae strwythurau a systemau rheoli yn cynorthwyo adolygu effeithiol a datblygiad pellach.

Mae rolau a chyfrifoldebau wedi eu diffinio'n glir iawn ac mae'r holl aelodau staff yn deall y rhan y maent yn ei chwarae mewn cyflwyno nodau strategol yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu at ymdeimlad cryf iawn o bwrpas ar y cyd. Mae uwch reolwyr a rheolwyr canol yn rheoli eu timau'n effeithiol iawn ac yn canolbwyntio eu sylw'n dda ar flaenoriaethau a deilliannau disgyblion. Maent yn falch o'u hysgol ac yn uchelgeisiol ar ei chyfer.

Mae strategaeth glir i rannu arweinyddiaeth yn eang, gan gynnwys y tîm arweinyddiaeth estynedig. Mae gan yr ysgol drefniadau gwerthfawr iawn i gynorthwyo arweinwyr ar bob lefel â rhaglen datblygu arweinwyr fuddiol. Mae hyn wedi cyfrannu at ymdeimlad cryf o waith tîm a ffocws clir ar geisio rhagoriaeth a gwelliant parhaus. Mae cyfarfodydd ar bob lefel yn bwrpasol, yn mynd i'r afael â blaenoriaethau allweddol yr ysgol, ac yn cynorthwyo deilliannau cryf i ddisgyblion, sy'n gwella.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn briodol. Mae hyn a dulliau eraill sy'n cael eu defnyddio gan yr ysgol i adolygu a gwella perfformiad yn herio staff yn llwyddiannus i ddatblygu eu harfer a nodi anghenion hyfforddiant a datblygu.

Mae ymrwymiad cryf iawn i gynorthwyo ysgolion eraill, dangos arweinyddiaeth yn y sector a sicrhau bod gan y gwaith hwn werth ar gyfer disgyblion yr ysgol, wrth i athrawon adolygu a datblygu eu harfer addysgu. Mae hon yn nodwedd gref iawn o waith yr ysgol.

Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth glir o'u rôl ac maent yn wybodus iawn am waith yr ysgol a deilliannau disgyblion. Maent yn herio'n gadarn, yn enwedig pan fydd achosion o danberfformio. Gwneir defnydd effeithiol iawn o brofiad ac arbenigedd llywodraethwyr unigol i gynorthwyo agweddau ar waith yr ysgol, fel darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth dda iawn i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, er enghraifft o ran lleihau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, hyrwyddo'r dimensiwn Cymreig a datblygu medrau llythrennedd a rhifedd pob disgybl. Mae effaith hyn i'w gweld ym mherfformiad gwell disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a safonau llythrennedd, yn benodol.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae arweinwyr ar bob lefel yn hynod lwyddiannus o ran cynnal ffocws diflino ar godi safonau, sicrhau lles disgyblion a gwella ansawdd addysgu ac arweinyddiaeth. Mae hyn wedi arwain at ddeilliannau cryf, cyson i ddisgyblion, addysgu effeithiol a datblygu cwricwlwm hynod effeithiol.

Mae'r ysgol wedi sefydlu diwylliant cryf o arfarnu a gwelliant parhaus yn llwyddiannus. Mae gan uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ddealltwriaeth fanwl o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Mae hyn yn deillio o ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys arsylwi gwersi, holiaduron a chraffu ar waith disgyblion. Mae'r ysgol yn arfarnu ei holl strategaethau'n ofalus iawn ac yn rheolaidd, ac mae hyn yn galluogi arweinwyr i wneud newidiadau amserol a

phendant i'w darpariaeth. Mae hyn wedi arwain, er enghraifft, at ddatblygu ystod eang o bartneriaethau hynod effeithiol a darpariaeth ragorol i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr canol yn dadansoddi data perfformiad yn dda, ac maent yn nodi unrhyw feysydd o danberfformio yn gyflym. Maent yn defnyddio'r ddealltwriaeth hon yn effeithiol iawn i gynllunio newidiadau i strategaethau addysgu a dysgu yn fanwl, ac i osod targedau heriol ar gyfer gwella. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar safon gwaith disgyblion. Hefyd, mae arweinwyr yn monitro ac arfarnu ymddygiad a phresenoldeb disgyblion yn ofalus iawn, ac mae hyn wedi helpu i gynnal safonau lles eithriadol.

Mae cylch adolygu a chynllunio gwelliant sydd wedi ei sefydlu'n gadarn. Mae arweinwyr pwnc yn cydweithio'n agos â'u rheolwyr llinell i arfarnu ansawdd gwaith eu hadran a herio athrawon i wella safonau. Mae uwch reolwyr a rheolwyr canol yn dra medrus o ran defnyddio gwybodaeth a gesglir o arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn ansawdd yr addysgu a safon gwaith disgyblion.

Mae cynllunio ar lefel ysgol-gyfan a lefel adrannol wedi ei integreiddio'n agos, ac mae hyn yn meithrin ethos cryf o bwrpas ar y cyd ar draws yr holl staff. Mae'r ysgol wedi sefydlu diwylliant cryf o gydweithio a rhannu arfer dda o fewn adrannau ac ar eu traws. Mae'r ffactorau hyn yn galluogi'r ysgol i wneud datblygiadau cyflym ac effeithiol mewn arweinyddiaeth, darpariaeth a'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni. Mae hyn yn nodwedd arbennig o gryf o waith yr ysgol, sy'n cael effaith sylweddol ar ddeilliannau disgyblion, er enghraifft y lefelau presenoldeb rhagorol, gwelliannau ym medrau llythrennedd disgyblion a pherfformiad cryf, cyson mewn llawer o'r dangosyddion perfformiad allweddol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae'r ysgol wedi sefydlu ystod amrywiol o bartneriaethau o ansawdd uchel sy'n cael effaith sylweddol ar gynnal safonau uchel o ran cyrhaeddiad a lles disgyblion.

Mae cysylltiadau sefydledig â darparwyr eraill yn sicrhau bod gan ddisgyblion ddewis eang o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol. Gwna asiantaethau fel yr heddlu a'r gwasanaeth tân gyfraniad gwerthfawr i gyrsiau arholiadau, y rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol, a gweithgareddau allgyrsiol, er enghraifft Cynllun Gwobr Dug Caeredin.

Mae cysylltiadau hynod effeithiol ag ysgolion cynradd partner, sy'n helpu disgyblion i bontio'n rhwydd i Flwyddyn 7. Caiff dilyniant mewn dysgu o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3 ei gynllunio'n ofalus. Caiff dysgwyr sy'n agored i niwed eu cynorthwyo'n arbennig o dda gan gynlluniau ar y cyd. Mae hyn yn cynnwys y 'Clwb Pyramid', lle mae disgyblion y chweched dosbarth yn ymweld ag ysgolion partner i gyfarfod â disgyblion sy'n arbennig o agored i niwed ac yn rhoi cymorth ychwanegol wedi ei bersonoli iddynt wrth iddynt symud ysgolion.

Mae gan yr ysgol berthynas arbennig o effeithiol ag asiantaethau sy'n cynorthwyo disgyblion sy'n agored i niwed, er enghraifft yr uned cyfeirio disgyblion leol. Caiff

cynnydd y disgyblion hyn ei fonitro a'i gynorthwyo'n ofalus iawn, ac mae hyn yn cael effaith sylweddol ar y safonau a'r cymwysterau y mae'r disgyblion hyn yn eu cyflawni. Mae hyn yn nodwedd arbennig o gryf o waith yr ysgol.

Caiff rhieni eu cynnwys yn llwyddiannus iawn yng ngwaith yr ysgol trwy ystod eang o strategaethau. Mae mentrau fel 'Tech-Dojo' yn helpu rhieni i gynorthwyo llythrennedd digidol eu plant ac yn hyrwyddo ymglymiad rhieni ym mywyd yr ysgol yn dda iawn.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn hynod effeithiol o ran cynorthwyo anghenion datblygu'r holl staff. Caiff hyfforddiant ei gynllunio'n dda ac mae'n cynorthwyo arweinyddiaeth ac addysgu effeithiol ar draws yr ysgol. Cryfderau penodol yw'r ystod eang o rwydweithiau effeithiol o arfer broffesiynol yn yr ysgol, ynghyd â chydweithio helaeth ag ysgolion eraill. Gwna'r rhain gyfraniad gwerthfawr at ddatblygu gwybodaeth broffesiynol ac maent wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles.

